
Babell Y Garn Madog Nasareth Pen-llwyn Rehoboth Seion

# Gair o'r Garn

## Cylchlythyr yr Ofalaeth

Seion Rehoboth Pen-llwyn Nasareth Madog Garn Babell

Cyfres newydd, rhif 31 Gwanwyn 2015



*'Gwelodd, ac fe gredodd'*

*Annwyl ffrindiau,*

Fe gewch chi ambell stori sy'n rhy dda i fod yn wir. Pwy yn ei iawn bwyll allasai gredu fod Iesu o Nasareth wedi atgyfodi? Onid oedd pobl wedi'i weld yn marw ar y groes? Onid oedd yna wragedd wedi gweld y milwyr yn rhoi ei gorff i orwedd mewn bedd? Hollol afresymol oedd yr holl straeon am fedd gwag ac angylion. *Scarcely believe*!

Mor wahanol oedd ymateb yr apostol Ioan ar fore'r Pasg cyntaf hwnnw. 'Gwelodd, ac fe gredodd.' (Ioan 20:8b) I Ioan, nid llewygu yn unig a wnaeth Iesu ar groes Calfaria a dod ato'i hun yn ddiweddarach. Nid lladron oedd wedi torri i mewn i'r bedd. Nid gelynion Iesu oedd wedi dwyn ei gorff. Cael ei argyhoeddi yn yr Atgyfodiad fu hanes Ioan. Cael eu hargyhoeddi fu hanes Mair Magdalen a'r disgyblion hwythau. A chael eu hargyhoeddi fu hanes dilynwyr Iesu ar hyd y cenedlaethau. Mae'n annhebyg mai ar sail rhyw fedd gwag yn unig y credodd Ioan yn yr Atgyfodiad. Ni fyddai hynny wedi bod yn ddigon o dystiolaeth iddo, mwy nag ydyw i'r rhan fwyaf o bobl heddiw. Na, drwy ffydd yr argyhoeddwyd Ioan. Ac fe gafodd y disgybl hwnnw ffydd am iddo adnabod Iesu yn bersonol.

Fel y disgybl 'annwyl' y gelwir Ioan gan awdur y Bedwaredd Efengyl, ac o'r herwydd gallwn gymryd fod Ioan wedi deall Iesu yn fwy greddfol na'r un disgybl arall. Dro ar ôl tro wrth iddo bwyso ar fynwes Iesu, wrth iddo wrando arno a'i wylio wrth ei waith ac mewn gweddi, rhaid ei fod wedi ymresymu droeon ag ef ei hun ai'r Meseia hir-ddisgwyliedig oedd y dyn rhyfedd hwn o Nasareth. O edrych ar Iesu yn ei ddillad bob dydd, roedd yn anodd ganddo gredu hynny. Ond roedd yn anodd ganddo beidio â chredu hefyd. Roedd rhywbeth arbennig am Iesu na allai geiriau ei fynegi. Ac yna, fe welodd Ioan y llieiniau yn gorwedd yn y bedd. Tybed a ddywedodd e wrtho'i hun – 'Ie, dyma fe, dyma'r Atgyfodiad, dyma'r hyn y mae'r Ysgrythur yn tystiolaethu amdano.' Ai hynny oedd y profiad personol a gafodd Ioan ar y Pasg cyntaf hwnnw? Ai'r un math o brofiad personol a gafodd Mair Magdalen a Thomas a'r holl ddisgyblion eraill yn ystod y diwrnodau a'r wythnosau a ddilynodd?

Ond mi fedraf glywed y sgeptig yn eich plith yn dweud, 'Digon diddorol, ond hyd yn oed os yw hyn oll yn agos at y gwir, pa werth sydd i brofiad yr un dyn hwn i rywun fel fi? Mae'n anodd gen i weld a chredu. Fedra i ddim tystiolaethu i unrhyw fedd gwag, neu i ryw lieiniau wedi'u plygu ynghyd; ac am y Pasg cyntaf hwnnw, yr unig dystiolaeth sydd gen i yw pedwar adroddiad ail-law am ryw ddigwyddiad pur amheus.'

Wrth gwrs, prin yw'r bobl sy'n dod i gredu yn yr Atgyfodiad am eu bod wedi darllen am hynny ar dudalennau'r Testament Newydd. Yn hytrach, dônt i gredu yn rhinwedd eu profiad personol o Grist heddiw. Cânt eu hargyhoeddi yn rhinwedd eu hadwaith i berson Iesu – ei fywyd, ei eiriau a'i weithredoedd. Dyna a ddigwyddodd i Ioan. Gwelodd ac fe gredodd, ohewydd ei brofiad personol blaenorol o'r Iesu.

Rhaid i ninnau hefyd y Pasg hwn gael ein hargyhoeddi yn yr Atgyfodiad drwy brofiadau personol. A ydym wedi gweld ac adnabod Iesu am yr hyn ydyw? A allwn ddweud ein bod yn credu ei fod yn fyw heddiw ac yn cerdded llwybrau ein bywyd? A allwn honni gyda'r Apostol Paul fod 'Crist yn byw ynof fi'? (Galatiaid 2:20) Mae ef i'w gael heddiw lle bynnag y mae disgybl fel Ioan na all fyw hebddo, lle mae disgybl fel Pedr a'i fryd ar gael ei godi drachefn, a lle mae disgybl fel Thomas a'i ffydd yn wan. Yr Atgyfodiad yw'r grym sydd yn ein gyrru ymlaen fel Eglwys. Ond rhaid wrth ffydd, fel y gallwn dystio gyda'r emynydd:

Mi wn fod fy Mhrynwr yn fyw,
 a'm prynodd â thaliad mor ddrud;
fe saif ar y ddaear, gwir yw,
 yn niwedd holl oesoedd y byd:
er ised, er gwaeled fy ngwedd,
 teyrnasu mae 'Mhrynwr a'm Brawd;
ac er fy malurio'n y bedd,
 ca'i weled Ef allan o'm cnawd.

(Thomas Jones)

Pasg bendithiol i chi gyd.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*Wyn Morris* (Bugail)

# Tudalen y Plant

## Cwis y Pasg

1. Beth yw enw’r Sul pan fyddwn ni’n cofio Iesu’n mynd ar gefn asyn?

___________________________________________________________

2. Beth roddodd y bobl ar y ffordd o flaen Iesu?

___________________________________________________________

3. Beth yw enw’r pryd bwyd enwog gafodd Iesu a’i ddisgyblion?

___________________________________________________________

4. I ble’r aeth Iesu i weddïo ar ôl y pryd bwyd yma?

___________________________________________________________

5. Beth yw enw’r diwrnod pan gafodd Iesu ei groeshoelio?

___________________________________________________________

6. Ar ba ddiwrnod y daeth Iesu ’nôl yn fyw eto?

______________________________



Anfonwch y gwaith at y Gweinidog,
drwy law eich athro / athrawes Ysgol Sul
os dymunwch, erbyn **30 Ebrill.**

Bydd gwobr o docyn llyfr gwerth £10 i’r ateb
cyflawn cyntaf a ddaw allan o’r het.

**Diolch i bawb a roddodd gynnig ar dasg y rhifyn diwethaf – ymgeisiodd 24 ohonoch i gyd. Yr enillydd yw Nannon Jones, Ysgol Sul Pen-llwyn.**

***Manylion Cyswllt y Gweinidog:***
***Y Parch Wyn Morris,***
***Berwynfa, Penrhyn-coch,***
***Aberystwyth, SY23 3EW***
***01970 820939***
***berwynfa@btinternet.com***

## *Cyhoeddiadau'r Ofalaeth*

| | |
|---|---|
| 3 Ebrill | Oedfa'r Groglith dan arweiniad y Bugail<br>Seion, Capel Seion, am 10 o'r gloch |
| 5 Ebrill | Oedfa Basg yr Ofalaeth dan arweiniad y Bugail<br>Capel y Garn am 10 o'r gloch |
| 10 Mai | Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion<br>yng Nghapel y Garn<br>Cyfarfod y Plant am 10 o'r gloch<br>Cymanfa'r Oedolion dan arweiniad Robert Nicholls<br>am 5.30 o'r gloch |
| 11 Mai | Pwyllgor y Tair Gofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 12–13 Mai | Cyfarfodydd Sasiwn y De yng Nghapel y Morfa |
| 18 Mai | Pwyllgor Swyddogion yr Ofalaeth<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 19 Mai | Pwyllgor CIC<br>Festri'r Garn am 7 o'r gloch |
| 21 Mai | Sasiwn Genhadol Chwiorydd y De<br>Capel Tabernacl, Aberteifi<br>I annerch: Zoe Glynne Jones am 2 o'r gloch<br>Carol Hardy, Ystafell Fyw, am 5 o'r gloch |
| 28 Mehefin | Gŵyl yr Ysgolion Sul<br>Canolfan y Morlan am 11.15 o'r gloch |

Mae'r manylion hefyd i'w gweld ar wefan y Garn:
www.capelygarn.org

Dilynwch ni ar Twitter @capelygarn

# CIC – Clwb Ieuenctid Cristnogol

Rwy'n falch o ddweud bod y grŵp CIC yng Nghapel y Garn yn parhau i ffynnu, ac mae'n wych gweld y bobl ifanc yn dechrau dod â'u ffrindiau gyda nhw i'r holl weithgareddau sydd yn cael eu cynnal. Cawsom noson dda i groesawu'r tymor newydd gyda noson o Zorbs, a'r bobl ifanc yn mwynhau rowlio o gwmpas a tharo i mewn i'w gilydd mewn peli mawr, clir.

Yna, roedd yn fraint croesawu Mrs Rhian Nelmes i rannu ei phrofiadau o'i thaith i Ghana. Roedd y plant wir wedi mwynhau'r sgwrs ac roedd yr oedolion a'r ieuentid wedi dysgu llawer. Roedd pawb wedi mwynhau blasu'r siocled Masnach Deg a gweld yn union ble mae'r ffa coco yn cael eu tyfu.

Rydw i'n edrych ymlaen at y tymor nesaf a'r gweithgareddau sydd wedi eu trefnu gennym. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â Zoe Jones, Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid (zoejones34@gmail.com neu 01970 611510)





## Oedfa Menter Gobaith

Roedd Capel y Morfa yn llawn bwrlwm ar ddydd Gŵyl Dewi wrth inni groesawu eglwysi o bob rhan o ogledd Ceredigion. Roedd hi'n hyfryd gweld y capel yn llawn o bobl o bob oed – o fabanod i neiniau a theidiau.

Roedd yn bleser cael cwmni Owain Edwards (Coleg y Bala) a'r Barchedig Nan Powell Davies wrth iddynt ein helpu i feddwl beth yn union oedd gan Dewi Sant dan sylw pan ddywedodd 'Gwnewch y pethau bychain'.

Gofynnodd Iesu, 'Sut beth ydi teyrnasiad Duw? Sut alla i ei ddisgrifio? Mae fel hedyn mwstard yn cael ei blannu gan rywun yn ei ardd. Tyfodd yn goeden, a daeth yr adar i nythu yn ei changhennau!' (Luc 13:19)

Roedd yn fraint cael gweld plant ysgolion Sul yr ardal yn dod at ei gilydd yn eu gwisgoedd Cymreig i ganu'r emyn 'Cân Hosanna' gan Eddie Jones.

Cynhelir y Dosbarth Beiblaidd, dan arweiniad y Bugail, ar bnawn Mawrth, yn festri Capel y Garn am 2 o'r gloch.

Croesewir aelodau hen a newydd.



*Newyddion Capel Seion*

**Cymdeithas y Paith**

Daeth y tymor i ben ar 4 Mawrth drwy ddathlu Gŵyl Ddewi yn Llety Parc wrth fwynhau swper traddodiadol – cawl a phwdin afal – yng nghwmni'r aelodau a'u cyfeillion. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Ina Tudno, a ddiolchodd i'r rhai a fu'n helpu yn ystod y flwyddyn a dymuno'n dda i swyddogion ac aelodau'r pwyllgor am y flwyddyn nesaf. Y gwesteion gwadd oedd Nest Jenkins, John Glant, a'i wraig Lisa Griffiths, Lledrod. Braint fu gwrando ar Nest yn llefaru darnau o farddoniaeth gyfoes ac amrywiol, a John Glant a Lisa yn canu emynau a nifer o ganeuon poblogaidd Bob Roberts, Tai'r Felin – dathliad teilwng iawn i'n nawddsant ar noson gwbl Gymraeg a llawen.

**Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd**

Nos Wener, 6 Mawrth, y cynhaliwyd yr oedfa yn Seion. Paratowyd y gwasanaeth eleni gan chwiorydd Cristnogol y Bahamas ar y thema: 'Dywedodd Iesu wrthynt, "A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi?" ' Cymerwyd rhan gan chwiorydd Seion, paratowyd bwrdd arddangos y Bahamas gan Eirlys Williams, a daeth Magdalen Davies â theisen wedi ei gwneud gan ddefnyddio rysáit o'r Bahamas – Bahama Mamma Carrot Cake – i bawb ei phrofi gyda phaned cyn gadael. A'r farn oedd ei bod yn flasus dros ben a nifer yn mofyn y rysáit i'w choginio gartref.

Mae'r Bugail yn awyddus iawn i glywed gan bobl ieuainc yr ofalaeth os ydynt yn dymuno dod yn aelodau cyflawn o'r Eglwys. Gobeithio y gellir trefnu Dosbarthiadau Derbyn mewn man canolog, gyda chyd-ddealltwriaeth y rhai a fydd yn barod i'w mynychu. Wrth gwrs, mae cydweithrediad y rhieni yn anhepgor yn hyn oll, gan y bydd eu hanogaeth hwy o'r pwys mwyaf. Gellir gwneud trefniadau arbennig ar gyfer y rhai ifainc sy'n byw oddi cartre, ac/neu sy'n dilyn cyrsiau prifysgol/addysg bellach.

**Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion**

Capel y Garn, Bow Street

Dydd Sul, 10 Mai 2015

Gwasanaeth y Plant am 10 o'r gloch

Cymanfa'r Oedolion am 5.30 o'r gloch

dan arweiniad Mr Robert Nicholls

Trefn y Rihyrsals – nos Fercher am 7 o'r gloch

| **Dyddiad** | **Lleoliad** |
|---|---|
| 1 Ebrill | Bethel (Aberystwyth) |
| 15 Ebrill | Bethel (Tal-y-bont) |
| 22 Ebrill | Seion (Aberystwyth) |
| 29 Ebrill | Y Morfa (Aberystwyth) |
| 6 Mai | Y Garn (Bow Street) |

Croeso cynnes i bawb – dewch i gefnogi

Llongyfarchiadau calonnog i:

Gwern Penri am ennill Tlws y Cerddor yn Eisteddfod Penweddig;

Rhys Tanat am ennill cystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth Saesneg i ddisgyblion Blwyddyn 7 Ysgol Penweddig;

Dilys a Vernon Jones ar enedigaeth gorwyr, Arwel Emyr, mab bach Meinir a Siôn, a brawd Tomos a Dylan;


Marjorie Hughes ar enedigaeth gorwyres, Eleanor Gwenith, merch fach Eifion a Sara, Wileiriog.

**Newydd o'r wasg**

Casgliad cynhwysfawr
o ddeunydd defosiynol,
yn cynnwys darlleniadau,
gweddïau, cerddi a
myfyrdodau ar gyfer
y Grawys a'r Pasg.

Casglwyd gan D Ben Rees;
cyhoeddwyd gan
Gyhoeddiadau'r Gair.

Pris £8.99



# Ebrill

*Blaenor y Mis: Vernon Jones*

*I gyfarch wrth y drysau: Alan Wynne Jones / Dewi G Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*



3 Oedfa'r Groglith
dan arweiniad y Bugail
Seion, Capel Seion am 10 o'r gloch

**5** Oedfa Basg yr Ofalaeth
dan arweiniad y Bugail
Capel y Garn am 10 o'r gloch

**12** Parchedig Adrian P Williams

**19** Y Bugail
Oedfa gymun yn y bore

**26** Mr Lyndon Lloyd

**Buddugoliaeth Iesu**

Iesu atgyfodedig, diolchwn i ti
fod daioni yn gryfach na drygioni;
fod cariad yn gryfach na chasineb;
fod goleuni yn gryfach na thywyllwch;
fod bywyd yn gryfach na marwolaeth,
a bod buddugoliaeth yn eiddo i ni
drwy'r hwn sydd yn ein caru.

Desmond Tutu
(o *Amser i Dduw*, gol. Elfed ap Nefydd Roberts)

cymorth cristnogol

# Ofnus, unig, mewn poen



Mae dewis Loko mewn bywyd yn syml: ‘Os na allaf gasglu coed tân, bydd fy mhlant yn marw.’

Bedair gwaith yr wythnos, mewn cornel anghysbell o Ethiopia, mae Loko’n gwneud taith flinedig wyth awr i gasglu coed tân. Mae’n dasg sy’n peri arswyd iddi ond mae’n mynnu dal ati oherwydd os na wnaiff hi hynny, bydd ei phlant yn llwgu.

Mae hi’n gweddïo ar Dduw wrth gerdded. ‘Rwy’n gofyn iddo newid fy mywyd a’n harwain allan o hyn,’ meddai.

Gallai £5 roi benthyciad i Loko i ddechrau ei busnes ei hun yn prynu a gwerthu te a choffi. Byddai hynny’n ei rhyddhau o’i thasg enbyd ac yn rhoi mwy o amser iddi ei dreulio’n gofalu am ei theulu.

Yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol eleni (10–16 Mai), gallwch helpu i drawsnewid bywydau gwragedd fel Loko. Bydd eglwysi ar hyd a lled gwledydd Prydain yn uno i weddïo, ymgyrchu a chodi arian i wella bywydau pobl fel Loko. Bob blwyddyn mae 100,000 o wirfoddolwyr yn dangos cariad Duw at y tlawd drwy gymryd rhan yn Wythnos Cymorth Cristnogol.

Am ragor o fanylion, ewch i caweek.org

## Mai

*Blaenor y Mis: Eddie T Jenkins*

*I gyfarch wrth y drysau: D Elystan Morgan / Marian B Hughes*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel y Garn*

**3** Parch Eric Greene
Noddfa yn ymuno yn y Garn

**10** Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion
Cyfarfod y plant am 10 o'r gloch
Cymanfa'r oedolion am 5.30 o'r gloch
dan arweiniad Robert Nicholls

**17** Gwasanaeth Cymorth Cristnogol dan arweiniad y Bugail
**am 10.30 o'r gloch**
Cinio Bara a Chaws yn dilyn y gwasanaeth

Oedfa gymun am 5 o'r gloch

**24** *Sul y Pentecost*
Oedfa dan ofal aelodau'r eglwys
Oedfa'r hwyr – y Parch Raymond Jones



**31** Parch Ddr Terry Edwards

> 'Nid yw na'n hiaith na'n cenedl yn gysegredig ynddynt eu hunain, ond fe'u gwnaed yn gysegredig pan ddaethpwyd i addoli Duw ynddynt a thrwyddynt.'
>
> Dr Meredydd Evans (1919–2015)
> (Dyfynnwyd o'r *Cristion*, Mawrth/Ebrill 2015)

## Mehefin

*Blaenor y Mis: Marian B Hughes*

*I gyfarch wrth y drysau: Vernon Jones / Erddyn James*

*Bydd yr ysgol Sul yn cwrdd yng Nghapel Noddfa*

**7** Oedfa'r bore yng Nghapel Noddfa
Oedfa'r hwyr dan arweiniad y Parch Raymond Jones

**14** Parch Roger Ellis Humphreys

**21** Bugail
oedfa gymun yn y bore
oedfa'r hwyr ym Methlehem, Llandre

**28** Parch Ddr Terry Edwards

Gŵyl yr ysgolion Sul
Canolfan y Morlan, Aberystwyth, am 11.15 o'r gloch

### *Cymdeithas Chwiorydd y Garn*

Cafwyd cyfarfod difyr brynhawn Mercher, 4 Mawrth. Y gwahoddiad oedd i'r aelodau ddod â rhywbeth roedden nhw'n ei drysori. Cafwyd ymateb gwych o arteffactau personol – pob un â'i hanesyn gwahanol a diddorol – yn amrywio o gorn hela Cotiau Coch Gogerddan, casgliad hyfryd o lwyau te o India i gyfrol o gerddi Robbie Burns – a mwy.

Paratowyd y te gan Gwenan, Ann a Meinir L. Gwenan oedd yn gyfrifol am y defosiwn, gyda Kathleen yn cyfeilio.

Daethpwyd â'r tymor i ben gyda the prynhawn yng Ngwesty'r Conrah ar 25 Mawrth.

## Ffydd

Wrth droedio'r ddaear hon
    O rho i mi
Gadernid ar y daith
    I'th ddilyn Di,
Rhag blino a llesgáu
    Na cholli'r hud
Ym muddugoliaeth fawr
    Dy aberth drud.

Pan ddaw treialon llym
    I'm hysgwyd i,
Dy ysgwydd ddeil fy mhen
    Goruwch y lli;
Llonyddaf yn Dy hedd,
    Addewaist Ti
Dawelu f'ysbryd briw
    A'm nerthu i.

Her dy gomisiwn Di,
    Fy Iesu da,
Yw cynnal, nid dileu,
    Y boen a'r pla;
O rho im newydd flas
    Ar fyw drwy ffydd
A phwyso ar dy nerth
    O ddydd i ddydd.

*Dilys Baker-Jones*

## *Pen-llwyn*

Nos Wener, 6 Mawrth, cynhaliwyd gwasanaeth Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd yn eglwys y Dyffryn, Goginan. Arweiniwyd y noson gan Mrs Anne Mason Davies a chymerwyd rhan gan aelodau'r Dyffryn, Llwyn-y-groes, Eglwys Dewi Sant a Phen-llwyn. Cyfeiliwyd gan Mrs Mair Jones, Coedlan. Gwragedd Ynysoedd y Bahamas oedd yn ein gwahodd i'r dathliad i ymuno â hwy mewn mawl a chân i Dduw. Cafwyd anerchiad pwrpasol iawn gan Mrs Iola Alban, Llanilar. Pwysleisiodd y pwysigrwydd o wasanaethu cyd-ddyn drwy esiampl Iesu yn golchi traed ei ddisgyblion a hefyd mor hanfodol ydyw i bob un ohonom ni gael ein golchi o'n pechodau a'n glanhau wrth ddod i adnabod Iesu Grist a'i dderbyn yn Arglwydd ar ein bywyd. Cwestiwn Iesu i'w ddisgyblion oedd: 'A ydych yn deall beth yr wyf wedi ei wneud i chwi?' Tybed a ydym ninnau yn ei ddeall heddiw ac yn sylweddoli ei aberth mawr Ef dros bob un ohonom ar y Groes:

> I Dduw bo'r gogoniant, fe wnaeth bethau mawr,
> rhoi'i Fab o'i fawr gariad dros holl deulu'r llawr;
> rhoi'i einioes yn Iawn dros ein pechod a wnâi,
> gan agor drws bywyd i bawb er eu bai.

Terfynwyd y gwasanaeth drwy weddi gan Anne a mwynhawyd paned ynghyd â danteithion blasus wrth gymdeithasu.



Wynebddalen llyfryn Dydd Gweddi Byd-eang y Chwiorydd 2015 – adar cenedlaethol Ynysoedd y Bahamas.



Bore Sul, 22 Chwefror, yn oedfa'r bore dan ofal ein Gweinidog, bedyddiwyd Ela Jên, baban Jonathan ac Angharad Lewis, Bronllys, chwaer fach Morgan ac Iestyn, wyres gyntaf Heulwen Lewis, Deiniol, ac wyres newydd Morwenna ac Ieuan Rees, Bwlchmawr. Crëwyd naws hyfryd wrth i'r Parch Wyn Morris ddarllen hanes bedydd Iesu yn ddramatig ac yn effeithiol. Gan fod pob plentyn a oedd yn bresennol wedi cael eu bedyddio yn fabanod, cawsant sticer yn rhodd ac arno'r neges: "Rydw i yn perthyn i Dduw". Oedfa fendithiol iawn oedd hon, nid yn unig i deulu Ela ond i bob un oedd yn bresennol. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

## *Cymdeithas y Chwiorydd, Rehoboth*

Cyfarfu'r Chwiorydd yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 9 Rhagfyr. Ein gwraig wadd oedd Beti Wyn Davies, un o'n haelodau. Bu gan Beti Wyn ddiddordeb erioed mewn gwaith llaw a chrefftau, a daeth â llond bwrdd o enghreifftiau o'i gwaith ffelt i'w ddangos i ni. Eglurodd y broses o ffeltio a'r modd y mae'n creu pob math o ddeunydd addurniadol ar gyfer y cartref. Diolchwyd iddi am brynhawn difyr iawn gan Mai Leeding. I ddilyn, mwynhawyd te, mins peis a danteithion eraill wedi eu paratoi gan Eiriona Metcalfe a Carys Briddon.

Ni chynhaliwyd cyfarfod ym mis Ionawr oherwydd y tywydd, ond cafwyd prynhawn diddorol yng nghwmni Gwyn Jenkins, Tal-y-bont, ar 10 Chwefror, a thestun ei sgwrs oedd 'Ceredigion a'r Rhyfel Mawr'. Esboniodd fel roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi effeithio'n fawr ar ardaloedd gwledig, megis Ceredigion, er eu bod yn bell o faes y gad. Aeth miloedd o Geredigion i frwydro yn y rhyfel a lladdwyd dros 1,000 ohonynt, gan gynnwys sawl un o'r ardal yma sydd â'u henwau ar gofebau yn lleol. Hefyd cafwyd hanes rhai dynion o'r ardal a ymunodd â'r fyddin ond a fu'n ffodus i ddod adre'n saff. Diolchwyd i Gwyn gan Non Griffiths, a diolch i Megan Brickley ac Olwen Rowlands a oedd yng ngofal y te.



Tîm y Garn yn ennill Tarian Her Cwis y Morlan 2015

## *Cymdeithas Lenyddol y Garn*



Y Parch W J Edwards,
cadeirydd y Gymdeithas,
a gyflwynodd y pedair
siaradwraig a rannodd
eu hatgofion am froydd eu
mebyd mewn noson
ddifyr iawn:
Nia Peris – Dyffryn Nantlle;
Llio Penri – Brynaman;
Gill S Jones – Llanelidan;
a Judith Morris – Pontardawe.



## *‘Llond Bol ar Grefydd’*

Un o Gristnogion mwyaf arloesol yr ugeinfed ganrif, y Parchedig Ddr George MacLeod, a weinidogaethodd ymhlith tlodion Glasgow cyn mynd ati i greu Cymuned Gristnogol flaengar ar Ynys Iona, lefarodd y geiriau uchod. Yn henwr 93 oed, roedd yn pregethu yn oedfa flynyddol Eglwys yr Alban yn Eglwys St Giles, Caeredin. Ar ôl canmol y rhai a anwesodd ei weledigaeth o chwilio ffyrdd newydd i gyflwyno neges Iesu Grist, dywedodd ei fod wedi cael hen ddigon ar bobol sy’n gwrthod symud o’u rhigolau treuliedig.

Yr un fu ’mhrofiad innau yn ystod hanner canrif o geisio perthnasu'r hen neges gyda byd sy'n newid mor gyflym. Ar ôl inni arloesi gyda Gweinidogaeth Bro yn Llanuwchllyn ym 1983 bûm yn siarad am yr arbrawf mewn sawl ardal. Ond wedi derbyniad caredig doedd neb yn fodlon gweithredu a minnau’n gorfod dweud, ‘Dos, a gwna dithau yr un modd’. Ar wahân i amharodrwydd cynulleidfaoedd i'n hefelychu, ni chafwyd arweiniad na chefnogaeth gan arweinwyr yr enwadau chwaith.

Colli’r hanesydd disglair John Davies a wnaeth imi feddwl fel hyn, am ei fod yntau’n llym ei feirniadaeth ar grefydd. Crefydd sylwer, nid Cristnogaeth. O gofio am agwedd John at grefydd dangosir ei fawredd fel hanesydd wrth drafod dylanwad Cristnogaeth, ac Ymneilltuaeth yn arbennig, yn gwbl deg a chytbwys yn ei gyfrol gampus, *Hanes Cymru,* ac roedd yn falch pan ddywedais hynny wrtho.

Ond agwedd wahanol iawn a welir yn yr hunangofiant (rwy’n cytuno ag eraill a ddywedodd fod John wedi gwneud cam ag ef ei hun yn y llyfr fel yn y rhaglen deledu cyn hynny), fel yn y sylw hwn ar ôl i hen wraig geryddu’i fam ac yntau am beidio mynd i’r ysgol Sul: ‘Achosodd hyn i mi gasáu’r Suliau a chefnu ar bob ffurf ar Gristnogaeth gyfundrefnol’.

Cred llawer ohonom fel John fod y gyfundrefn yn rhwystr inni effeithioli'n tystiolaeth yn ein hamgylchiadau presennol, lle sonnir gormod am ein henwad ni a'n capel ni. Credwn gyda John hefyd fod y math anghywir o grefydd yn troi'n felltith.

'Rwy'n amau,' medde John, 'nad oedd fy nhad yn Gristion, fel y dehonglir y ffydd gan rai.' Teimlaf innau'n drist wrth glywed efengyleiddwyr ifanc cyfeiliornus ac anoddefgar yn cyhoeddi nad yw cyfeillion sydd wedi gwasanaethu teyrnas Iesu mewn ysbryd mentrus a chymodol, wedi'u hachub, beth bynnag yw ystyr hynny. Cafodd John yr un profiad trist â minnau yng Ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, yng nghwmni efengyleiddwyr anfrawdol a gredai mai criw o Gristnogion anuniongred a pheryglus oeddem ni, aelodau'r SCM – Mudiad Cristnogol y Myfyrwyr.

Byddai wedi bod o gymorth i'm cyfaill John Bwlch-llan – fel i bawb ohonom – sylweddoli fod yna fyd o wahaniaeth rhwng crefydd a Christnogaeth, a bod sylw'r Athro J. R. Jones, gynt, yn 'Yr Argyfwng Gwacter Ystyr', yn tanlinellu hynny: 'Credaf ei bod ar ben ar grefydd ond megis gwawrio y mae hi ar Gristnogaeth'. Yn lle bodloni ar grefydd ddiflas sy'n gwbl aneffeithiol i fynd i'r afael â gwacter ystyr y cyfnod hwn, beth am i ni fynd ati dan arweiniad Ysbryd Duw i adfywio Cristnogaeth yng Nghymru, a chyhoeddi gyda W. Rhys Nicholas:

> Tydi sy'n haeddu'r clod, ddihalog Un,
> mae ystyr bywyd ynot ti dy hun.

*W. J. Edwards*

## *Colli Nest*

Ar Ionawr 12fed eleni bu farw Nest Davies, Nant Gwyn, Dolau, yn 91 oed. Hi oedd y pumed o chwe phlentyn Arthur ac Ann Morgan, Pwllglas.

Roedd Nest yn un o'r bobl mwyaf di-lol y gallech chi gwrdd â nhw - wastad yr un fath wrth bawb, ym mhob sefyllfa, byth yn digio nac yn dal dig, a phob amser yn barod ei chymwynas. Roedd hi'n batrwm o berson cytbwys ac eangfrydig, yn fy ngolwg i yn fy arddegau canol. Elwais ar lawer gyngor doeth ganddi.

Roedd hi'n amryddawn iawn, wedi graddio mewn gwyddoniaeth o goleg Aberystwyth, yn artistig wrth natur fel ei mam o'i blaen – roedd ganddi baentiadau gan ei mam wedi eu fframio ar y wal – ac roedd cerddoriaeth ym mêr ei hesgyrn.

Gan ei bod hi'n amser rhyfel pan raddiodd, cafodd fynd ar ei hunion i'r Amgueddfa Wyddoniaeth yn Llundain i hyfforddi i fod yn entymolegydd i adnabod yr holl gynrhon a phethau bychain eraill sy'n gallu difetha bwyd. Oddi yno fe aeth i Avonmouth i gadw llygad ar burdeb y cargos o lafur a gwenith a ffrwythau a siwgr a ddôi i mewn i'r wlad – mae hi'n adrodd yr hanes hwnnw'n ddifyr yn y llyfryn 'Atgofion Amser Rhyfel'. Yn ôl ei thystiolaeth yn yr ysgrif honno, y cyfle a gafodd yn Llundain a Bryste i glywed cerddorion uchelfri yn perfformio, yn unigolion ac yn gerddorfeydd, a ddihunodd ei diddordeb a'i chariad at gerddoriaeth, er ei bod hefyd, wrth gwrs, yn etifedd i'r holl weithgaredd cerddorol oedd yn digwydd yn yr ardal a'r capel yn ystod ei phentyndod.

Ar ôl y rhyfel priododd â Lyn Davies a oedd yn yr awyrlu, a gwneud cartref iddyn nhw yn yr ardal hon. Ganwyd iddyn nhw dri o blant – Rhys, Ann ac Arthur Gwyn – a'r tri ohonyn nhw'n meddu ar yr un gallu cerddorol â'u mam, a pha ryfedd gan eu bod wedi eu magu yn ei sŵn. Ei dymuniad pan oedd hi'n ifanc oedd cael chwarae'r ffidil gyda'r grŵp oedd yn dysgu o dan Alwyn Jones yn y festri – tua deg ohonyn nhw yn fechgyn ac yn ferched yr un oed â hi. Parhaodd hyd ddiwedd ei hoes i goleddu teimlad o anfodlonrwydd na chafodd wneud hynny. Fodd bynnag, roedd hi'n bianydd medrus, wedi ei dysgu gan J. T. Rees; yn nes ymlaen prynodd delyn a chael gwersi gan Alwena Roberts. Bu'n canu soprano yng nghôr Cymdeithas Gorawl Aberystwyth hyd ei blynyddoedd olaf.




Dau wyddonydd – Nest gyda Steve Jones y genetegydd,
mab ei chyfnither, yn 2009

Bu'n gweithio am gyfnod yn y Fridfa Blanhigion ym Mhlas Gogerddan; yna, ddechrau'r chwedegau penderfynodd hyfforddi i fod yn athrawes a chael blas mawr ar y gwaith. Mewn ysgolion cynradd y bu'n dysgu a cherddoriaeth oedd ei phrif faes. Mae gen i gof amdani droeon yn disgrifio gyda chryn frwdfrydedd y broses o ddenu plant i greu miwsig, weithiau gydag offerynnau go annisgwyl.

Bu'n ffyddlon i Gapel y Garn gydol ei hoes, y capel yr oedd ei thad-cu William Morgan a'i gefnder T. J. Mogan wedi bod yn gyd-weinidogion rhan-amser arno. Bu'n bianydd ac yn organydd yno am ran helaeth o'i bywyd, ac yn drefnydd y blodau nes iddi fethu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallaf ei chofio yn pwysleisio mor bwysig yw harddwch gweledol i wneud i bobl deimlo'n well. Roedd hynny yn estyn at ddillad yn ogystal â blodau, meddai, a hithau ei hun bob amser mor drwsiadus a llawen ei gwisg –'Ddim dim ond er fy mwyn fy hunan ond achos ei fod e'n sionci pobl eraill hefyd.'

Bu farw Lyn ei gŵr yn 2001, a Rhys, ei mab hynaf yn 2007.

*Llinos Dafis*




## *Cofio'r Rhyfel Mawr / WW1 Remembered 1914–1918*

Llyfryn dwyieithog yn rhoi cefndir arddangosfa'r Prosiect Cofio a Myfyrio, manylion y rhai a gollwyd, hanes gwersyll y Tiriogaethwyr ac yn y blaen.

Copïau ar gael, pris £2, gan Llinos Dafis (01970 828262) neu Marian Beech Hughes (01970 828662)

## *Canolan y Morlan, Aberystwyth*

**CRISTNOGAETH21**
Bydd y grŵp yn cyfarfod nos Fercher, 15 Ebrill, am 7.30 pm, 20 Mai am 8 pm a 17 Mehefin am 7.30 pm.

**DIGWYDDIAD AML-DDIWYLLIANNOL**
Cyfle i flasu, clywed, gweld a phrofi'r amryw ddiwylliannau sy'n rhan o'n cymdeithas. Dydd Sadwrn, 11 Ebrill am 12 o'r gloch. Mynediad: £3

**DEG DROS DDEG: PENWYTHNOS DATHLU (25–6 Ebrill)**:
I ddathlu dengmlwyddiant y Morlan bwriedir cynnal deg digwyddiad dros ddeg mis, rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016. Y digwyddiad cyntaf fydd y Penwythnos Dathlu, gyda ffair ar y dydd Sadwrn, 2–4 o'r gloch – cyfle i ddarganfod mwy am yr amrywiol grwpiau sy'n cwrdd yn y Morlan a'r holl weithgarwch sy'n digwydd yno ar hyd y flwyddyn. Mynediad am ddim.

**_Swyddogion yr Ofalaeth_**
*Cadeirydd*: Heulwen Lewis, Pen-llwyn
*Is-gadeirydd*: Tegwyn Lewis, Madog
*Ysgrifennydd*: John Leeding, Glannant, Taliesin, Machynlleth, SY20 8JH; johnleeding@googlemail.com (01970 832672)

Cyfraniadau ar gyfer y rhifyn nesaf erbyn **7 Mehefin**

| | |
|---|---|
| Mr Dewi G Hughes | Mrs Marian B Hughes |
| Bod Hywel, Bow St | 14 Maes y Garn, Bow St |
| ✆01970 828026 | ✆01970 828662 |
| dewighughes@lineone.net | marian_hughes@btinternet.com |